**Y Pwyllgor Busnes BC103-01(terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Edwina Hart, Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
John Lloyd, Cyn Glerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (Eitem 4)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Nid oedd Andrew Davies, y Trefnydd yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch. Roedd Edwina Hart yn ei gynrychioli yn unol â Rheol Sefydlog 13.3. Roedd Andrew George, Clerc y Pwyllgor hefyd yn ymddiheuro.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC72-01(terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion terfynol i'r Pwyllgor. Gan nad oedd sylwadau pellach, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC90-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion drafft i'r Pwyllgor. Awgrymwyd rhai mân newidiadau a fydd yn cael eu cynnwys yn y fersiwn terfynol a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## Materion yn codi (BC90-01)

3.1 **Paragraff 3.1** - Dywedodd Marie Knox ei bod yn cael rhywfaint o anhawster yn aildrefnu'r pwyllgorau ar 9 a 23 Mai er mwyn ceisio osgoi

cyfarfod ar ddiwrnod pleidleisio'r Etholiad Cyffredinol. Cytunwyd y bydd hi'n parhau i ystyried yr opsiynau ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Marie Knox**

3.2 **Paragraff 3.3** - Dywedodd David Lambert ei fod yn deall bod Winston Rodick yn dal i ddrafftio papur i'w drafod yn y Pwyllgor Busnes. Cytunodd Edwina Hart i drafod y mater ymhellach o fewn y Weithrediaeth. **Gweithredu: Edwina Hart**

3.3 **Paragraff 3.4** - Nodwyd bod Marion Stapleton wedi dosbarthu papur ar y swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo i'r Prif Ysgrifennydd cyn y ddadl wythnos diwethaf. Cytunodd i ddosbarthu'r manylion ar gyfer y gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau oedd yn cael ei ystyried yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw i'r holl Aelodau cyn gynted ag y bo modd ar ôl y Pwyllgor Busnes, er mwyn i'r Rheolwyr Busnes drafod gyda'u grwpiau. Er bod yr wybodaeth yn ddefnyddiol, roedd y Dirprwy Lywydd yn teimlo y gallai fod wedi ei gyflwyno ar ffurf haws i'w ddefnyddio. Awgrymodd David Lambert y gellid darparu tabl yn nodi manylion pŵer penodol y Ddeddf neu'r Mesur; y pwerau is-ddeddfwriaethol y gellir eu gweithredu; y swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo ac esboniad o'u pwerau. Cytunodd Edwina Hart a dywedodd y bydd yn gofyn i swyddogion baratoi gwybodaeth ar orchmynion trosglwyddo swyddogaethau yn gynt yn y broses ddrafftio yn hytrach nag ar ddiwedd y broses fel rhywbeth ychwanegol. **Gweithredu: Edwina Hart**

3.4 **Paragraff 4.4** - Nid oedd y Rheolwyr Busnes wedi derbyn y cyngor ychwanegol ar Orchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2001. Er hynny, roedd Aelodau wedi derbyn cynrychiolaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr. Nodwyd bod y Dirprwy Lywydd eisoes wedi penderfynu nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc i'w ystyried ymhellach. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylai egwyddor y gorchymyn drafft gael ei drafod mewn Cyfarfod Llawn oherwydd pryderon a fynegwyd. Gofynnir i'r Trefnydd ystyried amserlenni dadl mwy eang ar Bysgodfeydd Môr yn y dyfodol agos a bydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cael cyfle i ystyried y pryderon yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth.

3.5 Dywedodd Jocelyn Davies fod ystyried y mater hwn wedi dangos bod angen mwy o amser i'r Rheolwyr Busnes ystyried gorchmynion drafft cyn iddynt roi cyngor ar ymdrin â'r mater i'r Pwyllgor Busnes. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylai'r Aelodau fod yn gallu edrych ar orchmynion drafft ar y fewnrwyd a rhoi gwybod i'r Gweinidog perthnasol (a'u rheolwyr Busnes) ynghylch a ddylid eu cyfeirio at bwyllgorau pwnc. Dywedodd Edwina Hart bod y gorchmynion yn cael eu gosod ar y fewnrwyd er mwyn bodloni ymrwymiadau'r Weinyddiaeth o dan Reol Sefydlog 22.1, ond roedd yn derbyn bod angen mynd i'r afael â'u diwyg ar y Fewnrwyd a hysbysu aelodau ynghylch eu bodolaeth. Awgrymodd y gallai hysbysiad ymddangos ar y datganiad busnes drafft a gofynnodd i'r Rheolwyr Busnes ystyried treialu'r awgrym a bwydo nôl ymhen amser. **Gweithredu: Y Dirprwy Lywydd i ysgrifennu at y Pwyllgor Amaethyddiaeth; Y Trefnydd i bennu amser ar**

**gyfer dadl ac i ystyried darparu manylion deddfwriaeth ddrafft ar ei ddatganiad busnes drafft.**

3.6 **Paragraff 11.1** - Yn dilyn pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor, cytunodd Edwina Hart i ofyn i'w chydweithwyr yn y Cabinet, pan fyddant yn bwriadu ymweld ag etholaeth yn rhinwedd eu swydd fel Gweinidog, y dylent roi gwybod i'r pum Aelod Cynulliad ar gyfer yr etholaeth honno. **Gweithredu: Edwina Hart**

**4. Is-ddeddfwriaeth**

**Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC92-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2001**

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC93-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Fformwla Fabanod a Fformwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC94-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC98-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Cytunodd Nerys Arch i ddarganfod pam nad oedd arfarniad rheoleiddiol ar gael, nac unrhyw reswm dros ei absenoldeb. Bydd trefniadau ar gyfer ymdrin â'r gorchymyn yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Nerys Arch**

**Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001**

4.5 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC99-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Suckler Cow Premium Scheme Regulations 2001**

4.6 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC100-01 oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod oedd yn cael ei wneud ar y cyd â Lloegr o dan Reol Sefydlog 23. Nodwyd y gallai'r gorchymyn naill ai ddilyn y weithdrefn Safonol neu'r weithdrefn Gyflymach ond nad oedd modd ei ddiwygio. Cytunodd y Pwyllgor y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol a nodwyd nad oedd gofyn i'r Dirprwy Lywydd wneud penderfyniad ynghylch ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Yn absenoldeb y Trefnydd, cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r ystyriaeth o bapurau BC83-01 a BC97-01 ar gwestiynau llafar iddo. Roedd rhai newidiadau gan Paul Silk i eiriad y diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a argymhellwyd ym mhapur BC97-01. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn papur diwygiedig. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC95-01 ar ddyddiadau cyflwyno penodol yn ystod toriad y Pasg a chytunwyd arno. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn dosbarthu cyngor i'r Aelodau cyn gynted ag y bo modd. **Gweithredu: Y Swyddfa Gyflwyno**

5.3 Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes wneud sylwadau ar doriad y Nadolig. Dywedodd Edwina Hart a William Graham y byddai'n well gan eu grwpiau nhw gael toriad o bedair wythnos, dywedodd Jocelyn Davies a Kirsty Williams y byddai'n well gan eu grwpiau nhw gael tair wythnos. Cytunodd y Rheolwyr Busnes yn unfrydol na ddylid ystyried hanner wythnosau. Cytunwyd y bydd angen gwneud penderfyniad yn y cyfarfod nesaf.

## 6. Pwyllgorau

6.1 Dim.

## 7. Busnes sydd ar y gweill

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC96-01 oedd yn cynnwys manylion y busnes a gytunwyd ar gyfer y Cynulliad ar gyfer yr wythnos. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y cynigion ar ddirprwyo swyddogaethau i Brif Weinidog Cymru ar reoliadau Tir Mynydd, y cynnig cyfansawdd ar gyfer ystyried dau orchymyn a dadl fer Janice Gregory i gyd yn cael eu symud o agenda'r Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw er mwyn gwneud lle ar gyfer dadl frys ar Glwy'r Traed a'r Genau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai datganiad gan y Cabinet hefyd yn cael ei wneud ar gynnydd y Llywodraeth Partneriaeth y prynhawn hwnnw. Roedd cynnig cyfansawdd yn cynnwys pum gorchymyn hefyd wedi ei gyflwyno i'w ystyried ar 22 Mawrth.

7.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y bydd angen cynigion gweithdrefnol i gynnig yr eitemau busnes gan nad oeddent wedi eu cytuno gan y Cynulliad. Dywedodd hefyd y dylai ceisiadau i'r Llywydd am gynigion gweithdrefnol fod yn eithriadau gan nad oedd o gymorth i'r Aelodau pan fydd busnes yn cael ei symud ar fyr rybudd. Nododd y Pwyllgor bod cynigion gweithdrefnol yn cael eu derbyn yn ôl disgresiwn y Llywydd.

7.3 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC102-01). Nodwyd rhai newidiadau.

## 7. Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 26 Mawrth, 2 Ebrill a 30 Ebrill 2001

7.4 Cyngor y Pwyllgor i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y datganiad arfaethedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 26 Mawrth, 2 Ebrill a 30 Ebrill oedd y dylai fynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft diwygiedig.

## 8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfodydd llawn

8.1 Dim.

## 9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog

9.1 Dosbarthodd Marion Stapleton y fersiwn mwyaf diweddar o bapur BC101-01 ar ddiwygiadau i Reolau Sefydlog 34 a 23 i'r Pwyllgor. Dywedodd Jocelyn Davies ei bod hi am ystyried y diwygiadau arfaethedig gyda'i grŵp hi. Ychwanegodd ei bod yn gwrthwynebu diwygio'r Rheolau Sefydlog bob tro mae'r Cynulliad yn wynebu problem benodol. Cytunwyd y bydd y Pwyllgor yn ystyried y papur diwygiedig yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: y Rheolwyr Busnes**

## 10. Penderfyniadau'r Llywydd

10.1 Dim.

## <u>11. Unrhyw fater arall</u>

11.1 Dim.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**